***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1075

# Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018

**Ffi sydd i'w chodi am gais yn ymwneud â chais blaenorol**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo corff cymeradwyo wedi cymeradwyo cais yn flaenorol ("y cais blaenorol") mewn perthynas â system ddraenio.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r ffi am gais hanner y swm a fyddai i'w godi, oni bai am y rheoliad hwn, yn unol â rheoliad 4, os gwneir cais dilynol—

(a) o fewn 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cais blaenorol, a

(b) sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â'r system ddraenio a oedd yn destun y cais blaenorol, gan gynnwys cynigion adeiladu ac amodau cymeradwyo'r cais blaenorol.

(3) Ni chaiff corff cymeradwyo godi ffi pan fo cais o dan baragraff (2) yn ymwneud ag amod yn unig, ac eithrio amod o dan baragraff 11(2)(a) o Atodlen 3, o gymeradwyo'r cais blaenorol.